Association of independent Museums

Helping Heritage Organisations Prosper

Canllawiau Llwyddiant

Gosod Polisi a Phrisio Mynediadau yn Llwyddiannus

Association of Independent Museums

Helping Heritage Organisations Prosper

Canllawiau Llwyddiant

Gosod Polisi a Phrisio Mynediadau yn Llwyddiannus

Dr Stephen Connolly, Jonathan Durnin, Chris Berriman

DCResearch
Economics Creative Culture

Y llun ar y clawr blaen: Ymwelwyr ifanc yn lard Longau Hanesyddol, Chatham

Mae pa un a ydych yn codi tâl ar gyfer mynediad i amgueddfa, ac os ydych, pa strategaeth brisio i'w defnyddio, yn benderfyniadau allweddol sydd angen ystyriaeth ofalus. Gall codi tâl ar gyfer mynediad fod yn bwnc ymrannol sydd yn denu safbwyntiau cryf o fewn sefydliadau ac ar hyd y sector. Yng Ngwanwyn 2016, comisiynwyd ymchwil gan AiM i helpu i bob amgueddfa ddod o hyd i'r polisi cywir ar gyfer ei hamgylchiadau a gwneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth am eu strwythur codi tâl.

Mae casgliadau'r ymchwil hwn yn awr wedi cael eu defnyddio i ddatblygu canllawiau ar gyfer amgueddfeydd y DU; er mwyn cynorthwyo eu proses gwneud penderfyniadau ac asesu sut y bydd newid yn eu heffeithio yn y dyfodol. Os ydych ar hyn o bryd yn codi tâl ac yn ystyried newid i fynediadau di-dâl - neu i'r gwrthwyneb - bydd y canllawiau hyn yn gymorth i chi wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar enghreifftiau ac astudiaethau achos gan amgueddfeydd a oedd yn ymateb i arolwg AiM ar fynediadau a phrisio.

Mae'r ddogfen hon o ganllawiau yn crynhoi'r casgliadau allweddol am effaith y safbwyntiau codi tâl gwahanol ac yn nodi'r gwersi a materion allweddol i amgueddfeydd eu hystyried wrth adolygu eu safbwynt codi tâl eu hunain. Mae'r canllawiau hyn wedi eu strwythuro o amgylch y pedwar pwnc canlynol:

- Canllawiau cyffredinol ar gyfer pob amgueddfa ar godi tâl ar gyfer mynediadau
- Meddwl am godi tâl ar gyfer mynediad?
- Meddwl am symud tuag at fynediad di-dâl?
- Codi tâl yn barod? Canllawiau ar newid eich prisoedd

Canllawiau cyffredinol ar gyfer pob amgueddfa ar godi tâl ar gyfer mynediadau

Mae un o bob tair o amgueddfeydd annibynnol yn ddi-dâl ar gyfer mynediad ac mae un o bob tair amgueddfa awdurdod lleol yn codi tâl ar gyfer mynediad

Beth oedd prif gasgliadau'r ymchwil?

Nod cyffredinol yr ymchwil oedd deall profiad amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o fynediad di-dâl tuag at godi tâl, neu o godi tâl tuag at fynediad di-dâl, neu duag at fodelau 'hybrid' ac i archwilio i wahanol strategaethau prisio a'u heffaith. Roedd yr ymchwil yn archwilio i'r effaith ar niferoedd ymwelwyr, amrywiaeth ymwelwyr, incwm (gan gynnwys gwario eilaidd a chyfraniadau digymell), bodlonrwydd ymwelwyr, ansawdd ymweliadau ac enw da a pherthnasau. Roedd yr ymchwil hefyd yn helpu i nodi'r gwersi allweddol a ddysgwyd i'w rhannu gydag amgueddfeydd eraill. Roedd prif gasgliadau'y ymchwil yn cynnwys:

- Mae'r ddarlun gyffredinol o ran codi tâl yn fwy cymhleth o lawer nag y mae pobl yn cymryd yn aml; er enghraifft, mae un o bob tair o amgueddfeydd annibynnol yn ddi-dâl ar gyfer mynediad ac mae un o bob tair amgueddfa awdurdod lleol yn codi tâl ar gyfer mynediad.
- Nid oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng amrywiaeth y cynulleidfaoedd a pha un a yw amgueddfa yn codi tâl ar gyfer mynediad ai peidio, ac mae'r patrwm yn nhermau cymysgedd cymdeithasol yn debyg iawn.
- Fodd bynnag, rhaid deall casgliad fel hyn yn y cyd-destun nad yw'r cymysgedd cyffredinol cymdeithasol o ymwelwyr amgueddfa bob amser yn gynrychiadol o'r cymysgedd cymdeithasol ehangach o fewn eu cymunedau. Mae cyfraniadau yn cael eu heffeithio yn fwy gan nifer o ffactorau eraill na pha un a yw amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad ai peidio.
- Nid oes unrhyw berthynas gyson rhwng lefelau o wario eilaidd a pha un a yw amgueddfa yn codi tâl mynediad, ac mae dylanwad mwy o lawer gan ffactorau eraill. Fodd bynnag, mae rhai tystiolaeth wedi dod i'r amlwg sydd yn dangos fod ymwelwyr i amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn fwy tebygol o ymweld â'r siop (neu ddefnyddio arlwyo ar y safle), nag ymwelwyr i amgueddfeydd â mynediad di-dâl.
- Mae amserau treulio fel arfer yn fwy ar gyfer amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad.
- Mae'r broses o godi tâl yn creu ffocws ar gyfer croeso'r ymwelydd ac yn cynhyrchu gwybodaeth am ymwelwyr. Pan fod gan amgueddfeydd fynediad di-dâl, mae angen dulliau gweithredu gwahanol er gyfer yr elfennau hyn.
- Wrth wneud newidiadau, mae'n arbennig o bwysig i gyfathrebu yn glir gyda rhanddeiliaid a'r gymuned leol am y rhesymau ar gyfer y newidiadau ac i sicrhau bod staff yn gadarnhaol a hyderus wrth eu hegluro i ymwelwyr.

Beth y dylech chi ei ystyried am eich safbwyntiau o ran codi tâl ar gyfer mynediad?

- Mae dwy agwedd sydd yn allweddol i bob amgueddfa yn ymwneud â deall eich *cynnig* a deall eich *cynulleidfa* o ran ystyriaethau o amgylch eich safbwyntiau ar godi tâl.
- *Meddyliwch am gwestiynau fel: Beth sydd yn denu ymwelwyr i'ch amgueddfa? Am faint ydynt yn aros? Pa fath o bobl sydd yn ymweld â'ch amgueddfa? Pa mor aml ydynt yn ymweld? Beth sydd yn denu ymwelwyr fwy nag unwaith?
- Dylid ystyried amrywiaeth o ffactorau ehangach hefyd, er enghraifft pa mor debygol yw codi tâl o gael ei ddylanwadu gan:
- Economi ymwelwyr yr ardal (mae amgueddfeydd mewn ardaloedd ag economi ymwelwyr 'allweddol' neu 'arwyddocaol' yn fwy tebygol o godi tâl na'r rheiny mewn ardaloedd 'cymhedrol' neu 'fach').
- Pwysigrwydd yr amgueddfa fel atyniad yn yr ardal (mae amgueddfeydd 'atyniad allweddol' yn fwy tebygol o godi tâl na rhai 'arwyddocaol', 'cymhedrol arwyddocaol' neu 'fach').
- Y lefel o gystadleuaeth o ran denu ymwelwyr (mae amgueddfeydd mewn ardaloedd cystadleuol 'iawn' neu 'gymhedrol' yn fwy tebygol o godi tâl na'r rheiny mewn ardaloedd llai cystadleuol).
- Mae angen cydnabod y materion o amgylch barn gyhoeddus a chanfyddiadau. Mae hyn yn cynnwys y canfyddiad bod amgueddfeudd yn ddi-dâl, sydd yn gallu bod yn heriol wrth feddwl am godi tâl. Mae mynd i'r afael â chanfyddiadau fel hyn drwy gyfathrebu effeithiol yn bwysig.
- Mae cyfathrebu a negeseuon yn allweddol – gan gynnwys cyfathrebu'r angen ar gyfer neu'r rhesymau dros unrhyw newid.
- Hysbysebwch unrhyw gostau a chynigion yn glir yn fewnol ac allanol. Cyfathrebwch gyda staff a gwirfoddolwyr am y rhesymau pam fod newidiadau yn digwydd a sicrhewch eich bod yn cynnwys rhanddeiliaid eraill yn eich cynlluniau.
- Lle bo'n bosib dylai unrhyw benderfyniadau am newid strategaeth a/neu newid pris fod yn seiliedig ar dystiolaeth/data am ymwelwyr. Mae data ac ymchwil defnyddwyr da yn bwysig iawn i hysbysu penderfyniadau am godi tâl.
- Beth bynnag yw eich safbwynt presennol neu botensial o ran codi tâl, ystyriwch rôl cyfraniadau. Ystyriwch ddatblygu a gweithredu strategaeth ragweithiol o amgylch annog cyfraniadau.

Hysbysebwch unrhyw gostau a chynigion yn glir yn fewnol ac allanol. Cyfathrebwch gyda staff a gwirfoddolwyr am y rhesymau pam fod newidiadau yn digwydd a sicrhewch eich bod yn cynnwys rhanddeiliaid eraill yn eich cynlluniau.

Sut y bydd eich polisi codi tâl yn cydfynd â chenhadaeth, pwrpas a strategaeth gyffredinol eich amgueddfa?

Beth y dylech chi ei ofyn wrth eich Ymddiriedolwyr am ystyried o ran codi tâl mynediad?

Dylai polisi codi tâl a phrisio eich amgueddfa gael ei danseilio gan ystyriaeth briodol gan eich Ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu mewn perthynas â'u rôl a chyfrifoldeb dros osod strategaeth yr amgueddfa a chyflenwi mantais gyhoeddus. Mae'r mathau o faterion y dylid eu hystyried ar lefel llywodraethu yn cynnwys:

- Sut y mae eich polisi codi tâl yn cydfynd â chenhadaeth, pwrpas a strategaeth gyffredinol eich amgueddfa?
- Sut y mae eich polisi codi tâl yn cydfynd â'ch anghenion a nodau ariannol, gan gynnwys yr angen ar gyfer incwm sydd yn annibynnol o gyllidwyr arwyddocaol?
- Pa un a yw mynediad di-dâl neu godi tâl yn unol â disgowntiau a chymhelliad, yn ateb eich nodau orau o ran niferoedd ymwelwyr ac amrywiaeth ymwelwyr?
- Beth fydd effaith unrhyw benderfyniadau 'rydych yn eu gwneud ar godi tâl ar gyfer mynediad yn eu cael ar ganfyddiad ac enw da'r amgueddfa gydag ymwelwyr, rhanddeiliaid, cyllidwyr a'ch cymuned leol?

Llun trwy garedigrwydd Amgueddfa Brighton

Meddwl am godi tâl mynediad?

Yr effaith botensial o symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl

Os ydych yn meddwl am symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl, bydd y casgliadau ymchwil hyn yn helpu i siapio eich cynllunio ac yn gallu eich hysbysu am yr effeithiau posib o gyflwyno tâl mynediad yn eich amgueddfa.

- Mae amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn adrodd fwyaf cyffredin fod hyn yn cael effaith negyddol ar niferoedd cyffredinol ymwelwyr, gyda rhai yn adrodd lleihad amlwg mewn ymwelwyr, yn enwedig yn y nifer o ymwelwyr lleol.
- Mae amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl fel arfer yn adrodd nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar gymysgedd ac amrywiaeth yr ymwelyr, er bod data ar gymysgedd cymdeithasol yn gallu bod yn gyfyngedig i rai amgueddfeydd, yn enwedig pan oeddent yn ddi-dâl.
- Mae'r amgueddfeydd i gyd sydd wedi symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn adrodd effaith gadarnhaol ar incwm mynediadau, ac i rai mae hyn wedi bod yn lefel sylweddol o incwm sydd wedi cryfhau safle ariannol cyffredinol yr amgueddfa.
- Mae cyfraniadau digymell yn aml yn lleihau wrth symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl, er bod y gostyngiadau hyn yn cael ei digolledu yn sylweddol gan gynnydd mewn incwm mynediadau. Mae llawer o amgueddfeydd yn adrodd bod ffactorau ar wahân i godi tâl yn cael effaith fwy ar gyfraniadau.
- Er bod darlun gymysg yn dod i'r amlwg am yr effaith o godi tâl ar wariant eilaidd, mae tystiolaeth bod ymwelwyr i safleoedd gyda thâl mynediad yn fwy tebygol o ymweld â, a phrynu o'r siop, neu ddefnyddio arlwyo ar y safle, na'r rheiny i safleoedd di-dâl. Fodd bynnag, nodwyd y ddylanwad gryfach o ffactorau ar wahân i godi tâl ar wario eilaidd – yn enwedig ansawdd yr adwerthu a'r arlwyo ar y safle – gan lawer.
- Nodwyd gan lawer o amgueddfeydd nad oedd y gwario eilaidd yn gyffredinol wedi newid wrth i niferoedd ymwelwyr leihau – sydd yn awgrymu mai'r ymwelwyr a gollwyd wrth symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl o bosib yn bobl na fydd yn nodweddiadol yn gwneud unrhyw wario eilaidd wrth ymweld.
- Mae amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol yn adrodd bod hyn wedi cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar berthnasau ac enw da.
- Er bod gwerthfawrogiad fel arfer gan randdeiliaid am yr angen i gynyddu incwm, gall amgueddfeydd brofi ymateb negyddol gan y gymuned leol o ganlyniad i symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl, gyda chyfathrebu a chynllunio yn elfennau allweddol o ran lleihau ymatebion fel hyn.

Mae tystiolaeth bod ymwelwyr i safleoedd gyda thâl mynediad yn fwy tebygol o ymweld â, a phrynu o'r siop, neu ddefnyddio arlwyo ar y safle, na'r rheiny I safleoedd di-dâl.

Beth y dylech ei ystyried wrth symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl?

Llun trwy garedigrwydd Neuadd Cannon

Amrywiaeth a hyblygrwydd eich strategaeth brisio

Yn ôl yr ymchwil roedd amrywiaeth fawr o strategaethau yn cael eu mabwysiadu, sydd yn adlewyrchu'r mathau cyffredin o ymwelwyr; er enghraifft tocynnau oedolyn, plentyn neu deulu yw'r mwyaf cyffredin ac o fewn y categorïau prisio mae rhai amgueddfeydd yn cynnig rhagor o hyblygrwydd fel costau cysylltiedig ag oedran ar gyfer plant neu gostau ar gyfer gwahanol feintiau a mathau o deuluoedd. Gall gynnig amrywiaeth a hyblygrwydd o amgylch prisio fod yn bwysig o ran denu ymwelwyr i'ch amgueddfa a helpu i leddfu unrhyw bryderon hygyrchedd ar gyfer grwpiau penodol.

Gall prisio fod yn gymhleth!

Un mater i'w ystyried yw'r cymhlethdod posib o brisio. Gan fod amrywiaeth botensial fawr o docynnau a chynigion yn ogystal â Gift Aid a/neu opsiynau cyfraniadau gwirfoddol, roedd rhai amgueddeydd yn dweud bod amrywiaeth mor fawr yn gallu bod yn faich gweinyddol i'r amgueddfa ac yn gymhleth ar gyfer yr ymwelydd potensial. Mae enghreifftiau diweddar o amgueddfeydd yn symleiddio eu strwythur prisio, er mwyn ei wneud yn haws i'w weithredu ac yn haws i'w ddeall i bawb.

Pa strategaethau prisio eraill y gallwch eu defnyddio?

Mae strategaethau prisio ychwanegol y gallwch eu hystyried yn cynnwys disgowntiau neu fynediad di-dâl ar gyfer grwpiau, ffrindiau, mathau penodol o unigolion a thrigolion lleol. Yn ogystal â hyn, gellir cynnig cymelliadau eraill a chynigion fel tocynnau blynyddol, tocynnau tymhorol, ymweliadau ailadrodd di-dâl, a thocynnau ar y cyd. Mae syniadau prisio arloesol eraill yn cynnwys disgowntiau ar gyfer prynu tocynnau arlein neu ddisgowntiau gyda chynigion penodol/ cynlluniau taleb a chyfraddau rhatach ar gyfer mynediad ar ddiwrnodau neu amserau penodol o'r wythnos neu flwyddyn, yn ogystal â modelau arloesol fel 'talu beth ydych yn ei feddwl'.

Peryglon prisio isel

Wrth osod prisoedd, mae'n bwysig i gydbwyso unrhyw ystyriaethau am gadw prisoedd i lawr (i helpu hygyrchedd) heb dibrisio'r cynnig (drwy greu canfyddiadau o ansawdd isel). Er ei fod yn bwysig darparu gwerth arian wrth gyflwyno codi tâl, nid yw hyn yn golygu prisio isel, mae'n golygu yn hytrach sicrhau bod prisio yn adlewyrchu ansawdd yr amgueddfa / cynnig a bod y neges hon - am ansawdd a gwerth yr ymweliad - yn cyrraedd ymwelwyr. Mae gwybodaeth ar feincnodi prisoedd ar gael yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

Byddwch yn ofalus gyda'ch cymariaethau prisio

Wrth edrych ar amgueddfeydd eraill fel cymariaethau i'ch helpu i osod y prisoedd, sicrhewch eich bod yn dewis cystadleuwyr perthnasol. Mae'n bwysig cymharu gydag atyniadau priodol (efallai rhai lleol yn hytrach na rhai cenedlaethol), yn enwedig ble mae ymwelwyr i'ch amgueddfa fel arfer yn rai lleol neu ddiwrnod. Efallai nad

yw'r cymariaethau mwyaf perthnasol yn amgueddfeydd mewn rhannau gwahanol o'r wlad, ond yn hytrach yr atyniadau ymwelwyr yn eich ardal leol.

Heriau canfyddiad cyhoeddus
Yr amgueddfeydd sydd wedi wynebu rhai o'r heriau mwyaf yw'r rheiny sydd wedi symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol - gyda chanfyddiadau ac agweddau ymwelwyr (yn enwedig ymwelwyr lleol) yn profi i fod yn her sylweddol. Er y gall dewis prisoedd isel wrth gyflwyno codi tâl ymddangos yn ddeniadol, nodwyd gan amgueddfeydd a oedd yn cyflwyno tâl mynediad bod yr her o amgylch hyn yn digwydd beth bynnag yw'r pris a godwyd - felly nid yw cadw'r pris yn isel o reidrwydd yn lleihau'r her hon, a gallai achosi problemau o ran canfyddiadau bod pris isel yn golygu ansawdd isel.

Y gost ariannol o gyflwyno codi tâl
Mae'n bwysig gwerthfawrogi'r gost weithredol o gyflwyno codi tâl (e.e. hyfforddi staff, offer newydd a systemau newydd) a sicrhau eich bod yn archwilio i'r costau hyn fel rhan o unrhyw benderfyniad i symud tuag at godi tâl ar gyfer mynediadau, gan gynnwys sicrhau bod gennych y prosesau a'r systemau yn eu lle ar gyfer casglu Gift Aid ar fynediadau. Bydd hyn yn bwysig o ran sicrhau bod prisio yn cael ei osod ar lefel ddigonol i dalu'r gost weithredol o godi tâl a/neu ddarparu dychweliad ariannol digonol ar gyfer eich amgueddfa o newid fel hyn. Sicrhewch fod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i unrhyw oblygiadau TAW o symud i ffwrdd o fynediadau di-dâl tuag at godi tâl ar gyfer mynediadau, a chwiliwch am gyngor priodol am y rhain.

Pobl yw'r peth pwysicaf...
Gall codi tâl am fynediad ddarparu'r cyfle i'ch amgueddfa ddeall eich ymwelwyr yn well - drwy ragor o ymgysylltiad blaen-y-tŷ, casglu adborth anffurfiol gan ymwelwyr, a chasglu data ymwelwyr drwy wybodaeth docynnau. Mae'n bwysig i ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff ar unrhyw newidiadau o amgylch codi tâl. Mae hyn yn cynnwys datblygu hyder staff ac hefyd agweddau a dulliau gweithio staff o ran cyfathrebu'r cyflwyniad o godi tâl i ymwelwyr.

Ac amseru da!
Wrth gynllunio unrhyw newidiadau mae'n bwysig sicrhau bod amser cyflwyno digonol ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau.

Mae cyfathrebu yn allweddol
Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu wrth symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl ar gyfer mynediadau. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu gydag ymwelwyr i hysbysu costau a chynigion yn glir, ac i egluro'r symudiad tuag at godi tâl yn gychwynnol; cyfathrebu gyda staff/gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall pam fod costau yn cael eu cyflwyno a sut i weithredu'r newid; a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid/corff llywodraethol, yn enwedig pan fod ganddynt rôl gwneud penderfyniadau neu ddylanwad ar godi tâl.

"Mae pobl yn dueddol o aros am fwy o amser ar ôl talu am fynediad - er bod gennym docynnau tymhorol hefyd sydd yn galluogi ymweliadau byrrach a mwy aml."
Ymatebwr arolwg

Astudiaethau achos o amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa

Symudodd Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn 2014 gan gynyddu'r sgôp o brisio yn 2015 gyda'r nod o gynhyrchu incwm. Mae'r amgueddfa yn teimlo bod ymwelwyr potensial a oedd yn gwybod bod yr amgueddfa yn ddi-dâl yn flaenorol yn fwy tebygol o beidio ag ymweld oherwydd y gost. Mae gwersi yn cynnwys y pwysigrwydd o 'gael y neges allan' a sicrhau bod pobl leol yn deall pam fod tâl yn cael ei gyflwyno. Hefyd, mae'n bwysig i gadw'r un tâl ar gyfer cyfnod o amser, a hyrwyddo gwerth yr amgueddfa i ymwelwyr.

Y Lightbox yn Woking

Mae gan y Lightbox yn Woking raglen barhaus o arddangosfeydd dros dro, ac aeth hi o godi tâl ar gyfer yr arddangosfeydd hyn pan agorwyd yr atyniad yn 2007, i ddi-dâl yn 2009, a chyflwyno tâl o £5 ar gyfer tocyn blynyddol yn 2014, wrth gadw mynediadau di-dâl i'w orielau parhaol trwy gydol y cyfnod hwn.
Cyn ailgyflwyno codi tâl yn 2014, ymchwiliwyd ei hopsiynau gan y Lightbox yn fanwl, gan ddod i 'r casgliad mai'r cynllun tocyn blynyddol oedd y llwybr orau iddynt, gan ei bod yn hyrwyddo ail ymweliadau cynyddol ac yn golygu y gellir hawlio Gift Aid. Ar yr un pryd, roedd y Lightbox hefyd yn cynyddu costau aelodaeth ffrindiau o gost y tocyn blynyddol ac yn cynnwys y tocyn fel rhan o'r cerdyn aelodaeth, heb unrhyw gwynion. Roedd y Lightbox yn manteisio drwy fod yn dryloyw am y newid i godi tâl, a thrwy weithio'n galed gyda phob prosiect cymunedol yr oedd hi'n ymgysylltu â nhw er mwyn sicrhau nad oedd grwpiau allweddol yn cael eu digio.

Amgueddfa ac Oriel Gelf Brighton

Aeth Amgueddfa ac Oriel Gelf Brighton o ddi-dâl i godi tâl ar gyfer pobl nad oeddent yn byw yn Brighton ym Mai 2015, ac maent wedi darganfod er bod niferoedd ymwelwyr wedi gostwng yn sylweddol, mae amser treulio, a gwario pob ymwelydd wedi cynyddu. Darganfyddodd Amgueddfa Brighton nad oedd ansawdd eu casglu data ar ymwelwyr fel amgueddfa ddi-dâl yn ddigon manwl er gyfer cynllunio busnes seiliedig ar gostau, a bod y gostyngiad mewn nifer yr ymwelwyr yn fwy na'r disgwyl (mae ansawdd y data wedi gwella'n sylweddol drwy ymgysylltiad ymwelwyr fwy manwl). Dysgodd Brighton, er bod trigolion yn cael mynediad di-dâl, mae'r canfyddiad bod eich amgueddfa yn codi tâl yn effeithio ar rifau. Yn ddelfrydol, mae amser cyflwyno hir yn ddoeth er mwyn cyfathrebu'r newid yn well, yn unol â rhaglenni cynorthwyol, yn enwedig wedi'u anelu at gynulleidfaoedd lleol.

Meddwl am symud tuag at fynediad di-dâl?

Yr effeithiau potensial o symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl

Os ydych yn meddwl am symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl, bydd y casgliadau ymchwil allweddol hyn yn eich helpu i siapio eich cynllunio a'ch hysbysu am yr effeithiau posib o dynnu taliadau mynediadau yn eich amgueddfa.

- Mae'r mwyafrif llethol o amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar niferoedd cyffredinol ymwelwyr, gyda rhai yn adrodd mwy na dwbl yr ymwelwyr, ac yn enwedig nifer fwy o ymweliadau ailadrodd ac ymweliadau mwy 'achlysurol' gydag amserau treulio byrrach.
- Mae amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn cyflwyno darlun gymysg yn nhermau cymysgedd ac amrywiaeth yr ymwelwyr, gyda 'dim effaith' ac 'effaith gadarnhaol' yn cael eu hadrodd yn gyfartal. Er bod data ar gymysgedd cymdeithasol yn gallu bod yn gyfyngedig ar gyfer rhai amgueddfeydd, roedd y rheiny a oedd yn adrodd effaith gadarnhaol yn nodi mwy o ymwelwyr lleol yn arbennig.
- Roedd y mwyafrif llethol o amgueddfeydd a oedd yn symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd effaith gadarnhaol ar gyfraniadau digymell o ganlyniad. Mae i ba raddau y mae'r cynnydd hwn mewn cyfraniadau yn gwneud i fyny ar gyfer y golled incwm mynediadau yn amrywio o amgueddfa i amgueddfa – mae rhai yn profi cynnydd net yn eu hincwm tra bod eraill mewn safle ariannol gwaeth.
- Daeth darlun gymysg i'r amlwg o'r effaith o symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl ar wario eilaidd. Mewn llawer o achosion, roedd amgueddfeydd yn adlewyrchu ar ffactorau eraill a oedd yn dylanwadu ar y lefel o wario eilaidd, yn enwedig ar ansawdd y cynnig adwerthu ac arlwyo. Er bod amgueddfeydd di-dâl yn adrodd cynnydd cyffredinol yn niferoedd yr ymwelyr fel un o'r effeithiau mwy cadarnhaol aml, sydd yn arwain at gynnydd mewn gwerthiannau cyffredinol.
- Mae data cyfyngedig ar amserau treulio gan amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl, ond ni adroddwyd unrhyw effaith gan y mwyafrif, ac roedd y rheiny a oedd yn adrodd effaith gadarnhaol fel arfer yn dweud bod hyn yn perthyn i ymweliadau byrrach a mwy aml yn hytrach na chynnydd yn amserau treulio pob ymweliad.
- Roedd amgueddfeydd a oedd yn symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd effeithiau cadarnhaol ar berthynas ac enw da gyda rhanddeiliaid, y gymuned leol a ffrindiau ac aelodau. Roedd symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn enwedig yn helpu i ddatblygu cysylltiadau cryfach a gwell gyda'r gymuned leol – gan annog mynediad a chynyddu proffil yr amgueddfa.

Mae mwyafrif llethol yr amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr yn gyffredinol

Beth y dylech ei ystyried wrth symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl

"Mae llawer o ymwelwyr yn gwneud sylwadau am fod yn hapus i beidio â gorfod talu, ac mae llawer o deuluoedd yn ymweld fel grwpiau. Rydw i'n meddwl ei fod yn annog ail ymweliadau gan bobl leol." Ymatebwr arolwg

Haws i'w weithredu

Gall symud tuag at fynediadau di-dâl fod yn haws i amgueddfa ei weithredu na chodi tâl ar gyfer mynediadau. Mae cynnig mynediad di-dâl yn llai costus yn weithredol na chodi tâl ar gyfer mynediadau, ac nid yw'n wynebu'r rhwystrau ymarferol y gellir eu cyflwyno gan godi tâl i rai amgueddfeydd - yn ddibynnol ar y nifer o bwyntiau mynediad i'r amgueddfa, a'r ffordd y mae'r amgueddfa wedi ei dylunio.

Cwestiynau i'w gofyn ar gyllid a chynhyrchu incwm

Rhaid sicrhau y caiff ystyriaeth ddigonol ei rhoi i unrhyw oblygiadau TAW o symud i ffwrdd o godi tâl am fynediadau tuag at fynediadau di-dâl, a chwilio am gyngor priodol am y rhain. Gall ddarparu mynediad di-dâl gynnig cyfleoedd cynhyrchu incwm eraill, ond rhaid i chi fod yn drefnus ac yn barod i ecsbloitio cyfleoedd fel y rhain yn gadarnhaol neu gellir colli cyfleoedd.

Ffocws cynyddol ar gyfraniadau

Mae potensial i ganolbwyntio ar gyfraniadau fel ffynhonnell wahanol o incwm i incwm o fynediadau wrth symud tuag at fynediadau di-dâl, ac mae rhai amgueddfeydd (llai) wedi gwneud hyn yn llwyddiannus. Ble mae hyn wedi'i gyflawni, mae'r amgueddfeydd wedi datblygu strategaeth gryf ar gyfraniadau, gan gynnwys y defnydd effeithiol o flychau cyfrannu a hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar ofyn wrth ymwelwyr am wneud cyfraniad. Yn gyffredinol, mae amgueddfeydd yn teimlo eu bod mewn safle gwell i ofyn am gyfraniadau ac yn gwneud hyn yn fwy effeithiol pan fod mynediad yn ddi-dâl – ond nid yw hyn yn digwydd yn awtomatig. Mae dull gweithredu rhagweithiol a strategaeth gyfraniadau yn dal i fod yn angenrheidiol.
Hefyd, er bod cyfraniadau yn gallu cynyddu wrth symud tuag at fynediadau di-dâl, profiad rhai amgueddfeydd yw nad yw cyfraniadau yn talu am yr incwm o fynediadau a gollir, felly rhaid ystyried hyn wrth feddwl am symud tuag at fynediadau di-dâl.

Mae marchnata yn hanfodol

Mae'n bwysig i gyfathrebu, marchnata a hyrwyddo yn effeithiol unrhyw newid o godi tâl am fynediadau i fynediadau di-dâl - sicrhewch fod ymwelwyr potensial yn gwybod bod mynediad i'r amgueddfa yn awr yn ddi-dâl.

Gall gwario eilaidd gynyddu - ond...

Yn nhermau gwario eilaidd, un o'r effeithiau cadarnhaol a adroddir yn aml gan amgueddfeydd di-dâl yw cynnydd cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr sydd yn arwain at gynnydd mewn gwario eilaidd cyffredinol. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill (yn enwedig ansawdd y cynnig adwerthu ac arlwyo) yn cael dylanwad fwy ar lefel y gwario eilaidd na pha un a yw'r amgueddfa yn codi tâl ai peidio. Sicrhewch fod eich cynnig yn ddigon da i gyfalafu ar y cyfle.

Canfyddiad cyhoeddus cadarnhaol?

Gall cynnig mynediadau di-dâl fod yn ddeniadol iawn i ymwelwyr, yn enwedig pobl leol. Gall hyn gydfynd â'r canfyddiad bod amgueddfeydd yn ddi-dâl neu y dylent fod yn ddi-dâl. Un her ar gyfer amgueddfeydd sydd yn symud tuag at fynediadau di-dâl yw'r colled posib o ryngweithio blaen-y-tŷ – sydd yn arwain at lai o ymgysylltu gyda staff (a llai o ddata am ymwelwyr).

Pan fod amgueddfeydd yn symud tuag at fynediadau di-dâl, mae angen dulliau gweithredu gwahanol er mwyn sicrhau nad yw'r elfennau hyn yn cael eu colli, ac mae enghreifftiau ar gael o le mae hyn wedi'i gyflawni, ond mae'n golygu ymdrech ymchwanegol gan yr amgueddfa.

Sicrhewch fod eich amgueddfa wedi'i pharatoi ac yn gallu ymdopi â'r cynnydd disgwyliedig mewn ymwelwyr o ganlyniad i symud tuag at fynediadau di-dâl – a'r galw canlyniadol ar wasanaethau a chyfleusterau fel y caffi, toiledau, parcio ceir a chanllawiau clywedol.

Llun trwy garedigrwydd Amgueddfa ac Oriel Gelf Tullie House

Astudiaethau achos o amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl

Amgueddfa Elgin

Symudodd Amgueddfa Elgin i ffwrdd o godi tâl am fynediadau tuag at fynediadau di-dâl yn 2013 gyda'r nod o wneud yr amgueddfa yn fwy hygyrch. Llwyddodd yr amgueddfa i ddiogelu nawdd corfforaethol er mwyn helpu i wneud iawn am y mynediadau incwm a gollwyd yn gychwynnol. Yn ogystal â gweld niferoedd ymwelwyr bron yn dyblu, pwysleisiodd Amgueddfa Elgin fod gweithredu strategaeth gyfraniadau rhagweithiol (gan gynnwys defnydd effeithiol o flychau cyfrannu, ac adeiladu ar ganllaw arfer da) yn helpu i wneud iawn am lawer o'r incwm mynediadau a gollwyd, ac yn unol â'r nawdd parhaus, mae hyn wedi rhoi'r amgueddfa mewn safle ariannol gwell yn ogystal ag arwain at fwy o lawer o gysylltiadau ac ymgysylltu rhwng yr amgueddfa a'r gymuned leol oherwydd mynediadau di-dâl - mae'r cynnydd yn y nifer o blant sydd yn ymweld â'r amgueddfa yn enghreifftio hyn.

Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Derby

Roedd Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Derby yn ddiweddar yn archwilio i godi tâl ar un o'u safleoedd ac yn darganfod bod cyflwyno codi tâl yn yr amgueddfa hon yn arwain at gynnydd net o incwm ar lefel nad oedd werth ei dilyn yn ôl yr Ymddiriedolaeth, gan argyfnerthu ei safle ar fynediad di-dâl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu parhau gyda mynediad di-dâl, gan godi incwm o gyfraniadau (mae'r Ymddiriedolaeth yn teimlo fod hyn yn haws pan nad yw amgueddfa yn codi tâl), gwario eilaidd a chynnal cynadleddau.

Amgueddfa Cannon Hall

Mae Amgueddfa Cannon Hall yn agos at Barnsley yn amgueddfa ddi-dâl, gyda phrofiad blaenorol o godi tâl am fynediad. Mae gwersi allweddol o amgylch cynyddu incwm wrth gynnig mynediad di-dâl yn cynnwys bod yn barod i a gallu ecsbloitio cyfleoedd adwerthu, bod yn uniongyrchol a rhagweithiol o ran chwilio am gyfraniadau, sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi mewn sut i ofyn am gyfraniadau, a deall eich cynulleidfa (casglu a defnyddio data ymwelwyr).

Codi tâl yn barod? Canllawiau ar gyfer newid eich prisoedd

Hyd yn oed os ydych yn codi tâl am fynediadau yn barod, byddwch yn ofalus wrth newid eich prisoedd. Dyma rai o'r effeithiau i fod yn ymwybodol ohonynt.

- Mae amgueddfeydd a oedd yn codi tâl yn barod ac yn cynyddu cwmpas neu raddfa eu prisio mewn blynyddoedd diweddar yn adrodd fel arfer nad oedd y cynnydd prisio yn cael effaith ar niferoedd ymwelwyr.
- Yn debyg, roedd y mwyafrif llethol o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisoedd yn adrodd nad oedd hyn yn cael unrhyw effaith ar gymysgedd ac amrywiaeth eu hymwelwyr. Nodwyd ychydig iawn o newid yn y cymysgedd o ymwelwyr o gwbl gan y mwyafrif o amgueddfeydd, gyda rhai amgueddfeydd yn cynnig gweithgareddau penodol – er engrhaifft allgymorth – neu gymelliadau fel cynigion arbennig i wrthbwyso unrhyw effeithiau potensial.
- Roedd y mwyafrif llethol o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisoedd yn nodi bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar incwm mynediadau, o raddfeydd amrywiol.
- Nodwyd gan bron i dri chwarter o amgueddfeydd nad oedd prisio cynyddol yn cael unrhyw effaith ar gyfraniadau digymell – gan bwyntio allan bod ffactorau eraill yn fwy pwysig yn nhermau lefel y cyfraniadau.
- Roedd mwy na hanner yr amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisoedd yn adrodd nad oedd hyn yn cael unrhyw effaith ar wario eilaidd – gyda mwy na chwarter yn adrodd effeithiau cadarnhaol, gyda'r effeithiau cadarnhaol hyn yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth arall.
- Amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisio oedd y rhai lleiaf tebygol o adrodd bod hyn wedi cael effaith ar eu henw da a'u perthynas gyda rhanddeiliaid, y gymuned leol neu ffrindiau ac aelodau. Fel arfer mae gwerthfawrogiad gan randdeiliaid o'r rhesymeg ar gyfer cynyddu prisoedd a chryfhau safle ariannol yr amgueddfa.
- Mae llawer o amgueddfeydd yn defnyddio newid yn y cynnig ymwelwyr fel ailddatblygiad sylweddol, gwagle oriel newydd, agor arddangosfa newydd, neu newid ar raddfa llai yn y cynnig, er mwyn cefnogi cynnydd pris, gan helpu i leihau unrhyw effeithiau negyddol potensial – mae cynyddu'r pris yn syml heb unrhyw newid yn y cynnig yn fwy tebygol o arwain at effeithiau negyddol ar gyfer eich amgueddfa.

Nodwyd gan y mwyafrif llethol o amgueddfeydd bod prisio cynyddol wedi cael effaith gadarnhaol ar incwm mynediadau, o raddfeydd amrywiol

"Rydym yn cynnal penwythnosau agored dwyflynyddol er mwyn sicrhau ein bod yn targedu talebau di-dâl am fynediad i ardaloedd llai cyfoethog [ein dinas] yn seiliedig ar fynegeion o amddifadedd. Mae hyn felly yn golygu y gallwn gynnal cymysgedd amrywiol o ymwelwyr i'r amgueddfa." Ymatebwr arolwg

Beth y dylech ei ystyried wrth newid eich prisio?

Mae llawer o'r problemau, ystyriaethau a gwersi o amgylch symud tuag at godi tâl a amlinellwyd yn gynharach yn y canllawiau hyn hefyd yn perthyn i gynyddu eich prisio. Mae pethau eraill i'w hystyried wrth newid eich prisio yn cynnwys:

Strategaeth brisio amrywiol a hyblyg

Sydd yn cynnwys defnydd perthnasol o ddisgowntiau, cymelliadau a chynigion eraill a phrisio arloesol. Rhowch ystyriaeth ddigonol o lefelau a strategaethau prisio i helpu i leddfu unrhyw bryderon a phroblemau o amgylch hygyrchedd i grwpiau penodol.

Angen ar gyfer cydbwysedd

Rhaid cael cydbwysedd rhwng strategaeth brisio amrywiol ac unrhyw gymhlethdod prisio potensial. Hefyd, meddyliwch am y baich gweinyddol a'r dryswch i staff ac ymwelwyr y mae hyn yn gallu ei achosi. Rhaid i chi hefyd gydbwyso ystyriaethau am gadw prisoedd i lawr, i helpu hygyrchedd, heb tanbrisio'r cynnig (drwy greu canfyddiadau o ansawdd isel).

Mae newidiadau yn cymryd amser

Ystyriwch y gost weithredol o newid prisio fel hyfforddi staff, offer newydd, systemau newydd a sicrhau bod prisio yn cael ei osod yn ôl y rhain. Rhaid darparu hyfforddiant a chymorth i staff ar unrhyw newidiadau o amgylch codi tâl. Sicrhewch fod amser cyflwyno digonol ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau. Cyfathrebwch newidiadau prisio i ymwelwyr fel eu bod yn gwybod eu bod yn digwydd a pham maent yn cael eu cyflwyno.

Rhaid i bris adlewyrchu ansawdd

Sicrhewch fod prisio yn adlewyrchu ansawdd yr amgueddfa/cynnig a bod y neges hon - am ansawdd a gwerth yr ymweliad - yn cyrraedd ymwelwyr. Gwnewch ddefnydd perthnasol o gymaryddion wrth newid prisoedd: gall atyniadau ymwelwyr yn eich ardal leol fod yn fwy priodol nag amgueddfeydd eraill mewn lleoliadau eraill.

Llun trwy garedigrwydd Iard Longau Hanesyddol Chatham

Meincnodi

Yn nhermau meincnodi ar gyfer prisio, a ffactorau ehangach sydd yn gallu dylanwadu ar lefel y prisio, roedd dadansoddi prisoedd mynediad cyffredinol i oedolion ar gyfartaledd yn erbyn ffactorau eraill yn darganfod:

- Mae'r pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn mynediad cyffredinol oedolyn ychydig yn llai na £6 gydag amrywiaeth nodedig o brisoedd o dan y cyfartaledd hwn – o lai na £1 i £20+.
- Mae'r pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn mynediad cyffredinol plentyn bron yn £3, ac eto mae'r amrywiaeth o brisoedd o dan y cyfartaledd hwn yn nodedig – o ddi-dâl i £14.
- Mae'r pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn mynediad cyffredinol consesiwn ychydig dros £5 gydag amrywiaeth nodedig o brisoedd o dan y cyfartaledd hwn – o lai na £1 i £20+.
- Mae'r pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn teulu safonol ar gyfer mynediad cyffredinol bron yn £19 ac mae'r amrywiaeth o brisoedd o dan y cyfartaledd hwn o £4 i £60+.
- Mae ychydig iawn o wahaniaeth rhwng prisoedd ar gyfartaledd yn ôl y fath o amgueddfa – tra bod amgueddfeydd annibynnol yn fwy tebygol o godi tâl nag amgueddfeydd awdurdod lleol, mae'r prisoedd ar gyfartaledd i'r ddau fath yn debyg iawn.
- Po fwyaf arwyddocaol yw'r economi ymwelwyr i'r ardal leol, yr is yw'r pris ar gyfartaledd.
- Po fwyaf pwysig yw'r amgueddfa fel atyniad i'r ardal leol, yr uwch yw'r pris ar gyfartaledd.
- Mae patrwm o brisoedd ar gyfartaledd sydd yn uwch mewn perthynas â maint yr amgueddfa (yn nhermau niferoedd ymwelwyr) h.y. po fwyaf yw'r amgueddfa, yr uwch yw'r pris ar gyfartaledd.
- Mae prisoedd ar gyfartaledd yn uwch i amgueddfeydd yn ne Lloegr (h.y. Llundain, De Orllewin Lloegr a De Ddwyrain Lloegr) nag ar gyfer ardaloedd eraill ar hyd a lled y DU.

Po fwyaf arwyddocaol yw'r economi ymwelwyr i'r ardal leol, yr is yw'r pris ar gyfartaledd

Astudiaethau achos amgueddfeydd sydd wedi newid eu prisio

Amgueddfa ac Oriel Gelf Tullie House

Cynyddwyd y lefel a chwmpas o brisio gan **Amgueddfa ac Oriel Gelf Tullie House** yn 2014, gan ddewis codi tâl ar gyfer pob arddangosfa arbennig yn hytrach na rhai yn unig, ac hefyd creu tâl ar wahân ar gyfer yr arddangosfeydd hyn yn unig (pris holl-gynhwysol oedd y cynnig blaenorol). Arweiniodd y newidiadau at strategaeth brisio mwy cyson, ac nid oeddent yn effeithio ar niferoedd ymwelwyr, a oedd yn aros yn weddol gyson, na'r cymysgedd o ymwelwyr. Cynyddodd incwm o fynediadau, gydag incwm arall (cyfraniadau a gwario eilaidd) yn aros yn gyson neu yn cynyddu oherwydd ffactorau eraill.

Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych y Pysgod

Roedd Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych y Pysgod yn newid ei pholisi codi tâl ar gyfer mynediadau yn ystod blynyddoedd diweddar (gan adael i blant gael mynediad di-dâl, tynnu'r prisoedd consesiwn, a chynyddu prisoedd oedolion). Bwriad y newidiadau hyn oedd cynyddu apêl yr amgueddfa i deuluoedd a phlant, yn ogystal â gwella safle ariannol yr amgueddfa. Ers y newidiadau, mae niferoedd ymwelwyr wedi cynyddu ychydig, ac mae'r nifer o ymwelwyr sydd yn talu hefyd wedi cael ei chynnal. Roedd y newidiadau hefyd yn arwain at strategaeth brisio symlach, sydd wedi bod yn fanteisiol i staff/gwirfoddolwyr ac ymwelwyr yr amgueddfa gan ei fod yn haws i'w deall a chyfathrebu. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gyfathrebu effeithiol gydag ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill wrth weithredu unrhyw newidiadau o amgylch prisoedd mynediad gan Amgueddfa Dinbych y Pysgod - gan gynnwys negeseuon cryf ac effeithiol am safle ariannol yr amgueddfa.

Ymddiriedolaeth Iard Longau Hanesyddol Chatham

Roedd Ymddiriedolaeth Iard Longau Hanesyddol Chatham yn cynyddu eu tocynnau oedolion blynyddol yn 2016, yn seiliedig ar welliant cynnyrch arwyddocaol, gan gynyddu profiad yr ymwelydd ac amserau treulio yn ogystal â chynorthwyo strategaeth o ddisgowntiau wedi eu targedu (yn uniongyrchol arlein trwy eu gwefan) a chynigion hanner pris ar gyfer digwyddiadau gyda thocyn blynyddol, a chynnig 'mynediad di-dâl i blant' arlein yn ystod yr haf. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ymchwilio i opsiynau, y pwysigrwydd o arenillion-incwm (h.y. cyfanswm incwm o fynediadau) mewn perthynas â chyfaint ymwelwyr, a'r angen ar gyfer negeseuon a chyfathrebu clir a gonest.

Cefndir Ymchwil

Comisiynwyd DC Research Ltd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AiM), mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr (ACE) ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, i wneud astudiaeth ymchwil i'r effaith o godi tâl ar gyfer mynediad ar amgueddfeydd. Cwblhawyd y gwaith yng Ngwanwyn a Haf cynnar 2016.

Nod cyffredinol yr ymchwil oedd deall profiad amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o fynediad di-dâl tuag at godi tâl, neu o godi tâl i fynediad di-dâl, neu i fodelau 'hybrid', ac i archwilio strategaethau prisio gwahanol a'u heffaith, gan gynnwys effaith ar: niferoedd ymwelwyr; amrywiaeth yr ymwelwyr; incwm (gan gynnwys gwario eilaidd a chyfrannu digymell); boddhad ynmwelwyr/ansawdd yr ymweliad; ac enw da a pherthnasau, yn ogystal â nodi gwersi a ddysgwyd i rannu gydag amgueddfeydd eraill.

Roedd yr ymchwil sydd yn tanseilio'r canllawiau hyn yn cynnwys adolygiad manwl o ymchwil a llenyddiaeth flaenorol am effaith codi tâl ar gyfer mynediadau ar amgueddfeydd, arolwg sector-eang o amgueddfeydd ar hyd a lled y DU (derbyniwyd cyfanswm o 311 o ymatebion), ymweliadau i 20 o amgueddfeydd astudiaeth achos i asesu effaith fanwl codi tâl am fynediadau, ac amrywiaeth o ymgynghoriadau unigol gyda rhanddeiliaid amgueddfa allweddol.

Llun trwy garedigrwydd Amgueddfa Dinbych-y-Pysgod

Association of independent Museums

Helping Heritage Organisations Prosper

Association of Independent Museums (AiM)
3 Chestnut Grove
Ludlow
Shropshire SY8 1TJ

AiM Editor – Sassy Hicks
www.aim-museums.co.uk

Copyright © 2016 AiM/Arts Council England /Welsh Government

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government